



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm
Clydach, CF40 2XX
Dydd Iau, 19eg Ebrill, 2018 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol
(Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 17 Ebrill 2018. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/ly Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2018 yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 -14)

3. DATBLYGU CANOLFANNAU/HYBIAU I'R GYMUNED YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n cynnig rhaglen o fuddsoddiad mewn gwasanaethau i gymunedau ar draws y Fwrdeistref Sirol trwy ddatblygu Hybiau Cymuned yn rhan o agwedd y Cyngor tuag at greu cymunedau cydnerth, ac ymyrraeth ac atal yn gynnar.

(Tudalennau 15 - 94)

4. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (SYLWEDDAU MEDDWOL GAN GYNNWYS ALCOHOL)

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n nodi canlyniad y broses ymgynghori â'r cyhoedd, ac i geisio awdurdod i gadw'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i reoli achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Rhondda Cynon Taf ac i estyn y Gorchymyn i gynnwys dau barth gwaharddedig penodol i reoli defnydd sylweddau meddwol yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr.

(Tudalennau 95 -154)

5. YMGYNGHORI – NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I GYFANSODDIAD Y CYNGOR

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n ceisio barn Aelodau, trwy broses ymgynghori, ar newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor, cyn iddyn nhw gael sylw'r Pwyllgor Materion Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyfansoddiad a'r Cyngor Llawn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mai 2018.

(Tudalennau 155 - 164)

6. CYNNIG SEFYDLU YSGOL 3–19 OED AR SAFLE GARTH OLWG

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes, sy'n nodi canlyniad yr hysbysiad statudol a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar parthed sefydlu ysgol 'pob oed' 3-19 oed ar Gampws Dysgu Gydol Oes Garth Olwg, Pentre'r Eglwys.

(Tudalennau 165 - 176)

7. YMATEB Y CABINET I ADRODDIAD Y GWEITHGOR CRAFFU – PLANT A PHOBL IFAINC PARTHED CYNHYRCHION MISGLWYF

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n nodi argymhellion y Pwyllgor Gwaith Craffu mewn perthynas â darpariaeth cynhyrchion misglwyf yn ysgolion RhCT, ynghyd â chynllun gweithredu swyddogion ar gyfer ystyriaeth Aelodau.

(Tudalennau 177 - 228)

8. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol

